# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 23.06.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Huw Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, W.Tudor Owen, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

*********

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor (Rhan 4/ Rheolau Gweithdrefn/10 Para 1,2 a 5) nodir: 'Ni chaiff yr un aelod wasanaethu fel cadeirydd mwy nag un pwyllgor. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro aelod sy'n gadeirydd pwyllgor rhag cymryd y gadair mewn pwyllgor 'os yw'r personau a benodwyd yn absennol, rhaid i gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor benodi, o blith yr aelodau pleidleisiol sydd yn bresennol ac sydd yn aelodau o'r Cyngor, rywun i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw'

Amlinellodd Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith yr angen i ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Y trefniant a welwyd dros y cyfnod 2012 - 2014 oedd bod un Cadeirydd yn cadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol. Er hynny, tynnwyd sylw'r Aelodau bod rhaid ymdrin â'r ddau bwyllgor fel dau bwyllgor ar wahân (er mai'r un yw'r aelodaeth). Nodwyd mai un lwfans fydd ar gael ar gyfer y Pwyllgorau Trwyddedu.

Er mwyn ymdrin â'r mater mewn modd priodol, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer trafod y mater mewn manylder yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu 15.9.14.

**Yn unol â'r rheol uchod, etholwyd y Cynghorydd Eryl Jones Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yma yn unig.**

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU:**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd, Llywarch Bowen Jones, Chris O'Neal, Peter Read

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim eitem i'w hystyried

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2014, fel rhai cywir.

## 5. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r cynnig i godi holl ffioedd tacsis gan 19.78%. Nodwyd y bydd y cynnydd arfaethedig yn amodol ar ymgynghoriad statudol gyda'r diwydiant tacsis a bydd costau darparu'r gwasanaeth yn cael eu hasesu'n flynyddol.

Amlinellwyd y byddai rhaid i'r ffioedd a godi'r fod yn rhesymol a phenderfyniad y Cyngor yw gosod y ffioedd ar lefel i alluogi adennill costau llawn neu'n rhannol.

Mewn adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 24.6.2013, argymhellwyd cynnydd o 25% ar holl ffioedd tacsis gyda chynnydd pellach er pwrpas symud tuag at adennill costau'n llawn yn 2014/15.

Yn dilyn ymgynghoriad uniongyrchol gyda'r diwydiant tacsis, bydd rhaid i unrhyw wrthwynebiadau i'r ffioedd gael eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod nesaf (15.9.2014) a bydd rhaid gwneud penderfyniad ar lefel y ffioedd yn unol â hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, nododd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) gostau Gwynedd (£260.52) o gymhaur â Siroedd eraill yng Nghymru, oedd yn amrywio o Fôn (£196.00) i Abertawe (£399.00).

Nododd yr Aelodau bod rhaid, wrth ymgynghori gyda'r diwydiant tacsis, egluro'r sefyllfa yn glir gyda chais i'r Uned Gyfathrebu ymgysylltu yn effeithiol gyda'r diwydiant a'r cyhoedd i hyrwyddo bod y Cyngor wedi cadw costau yn isel dros y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabuwyd bod y sefyllfa yn un anodd a bod y cynnydd yn un sylweddol. Er hynny, nid oedd modd cario'r golled ariannol. Rhaid gwarchod y gwasanaeth er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r diwydiant.

Cynigiwyd ac eiliwyd anfon gwybodaeth o'r costau cymharol yng Nghymru at Aelodau'r Pwyllgor ac i'r diwydiant tacsis.

Cynigiwyd ac eiliwyd i swyddogion yr uned drwyddedu edrych i mewn i opsiynau hyblyg i gyfarch anghenion yr ymgeiswyr i dalu am drwydded.

Cynigiwyd ac eiliwyd i wahodd yr Aelod Cabinet John Wyn Williams i'r cyfarfod nesaf ar Fedi 15fed 2014.

**PENDERFYNWYD**

- **Cefnogi argymhelliad Pennaeth Adran Rheoleiddio i godi'r ffioedd yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad statudol.**
- **Dosbarthu gwybodaeth gymharol i Aelodau'r Pwyllgor a'r diwydiant tacsis**
- **Gofyn i'r Adran Drwyddedu ystyried opsiynau hyblyg i gyfarch anghenion yr ymgeiswyr wrth dalu am drwydded**
- **Gwahodd yr Aelod Cabinet i'r cyfarfod nesaf**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45a.m. a daeth i ben am 11.45am